# Holiadur Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Rheoliadau Drafft a Chanllawiau Statudol mewn perthynas â chynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad (os yw'n berthnasol):** | **Cyngor Meddygol Cyffredinol** |
| **Eich enw:** | **Vincent Joyce** |
| **e-bost:** | **GMCWales@gmc-uk.org** |
| **Eich cyfeiriad:** | **Trwyn Caspian, Ffordd Caspian, Caerdydd CF10 4DQ** |

**Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu rhannu â' cyhoedd, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn ddienw, ticiwch yma:**

☐

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i Lywodraeth Cymru, i gyrraedd ar **8 Ebrill 2024** ar yr hwyraf. Dyma'r cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau:

TriniaethauArbennig@llyw.cymru

Gellir lawrlwytho'r ffurflen hon neu gyrchu'r holiadur ymateb ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru yma:
https://www.llyw.cymru/rheoliadau-chanllawiau-statudol-drafft-ar-drwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig

**Byddwn yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg.**

**Noder:** bydd y cynllun trwyddedu gorfodol hwn yn cael ei gyflwyno ar y telerau a nodir yn y ddogfen hon a'r Rheoliadau. Ni allwn felly ailedrych ar bwnc y cynllun ei hun na'r cynigion a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori gyntaf.

| | |
|---|---|
| | **Rhowch resymau am eich atebion wrth ymateb.** |
| **1 - Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 202X** | |
| **1a** | **Ydych chi'n credu bod y Rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y bydd unigolion yn cael eu trwyddedu?** |
| | Ateb: Mae’r GMC yn cytuno y dylai unigolion sy’n cynnal triniaethau arbennig gael eu trwyddedu, naill ai’n uniongyrchol drwy bwyllgorau awdurdodau lleol neu ar gyfer proffesiynau wedi’u hesemptio drwy eu rheoleiddiwr proffesiynol, ee meddygon sydd wedi’u cofrestru a’u trwyddedu gyda’r GMC. |
| **1b** | **A oes unrhyw beth yn aneglur, unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys, neu unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys na ddylid ei gynnwys?** |
| | Ateb: |
| **2 - Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 202X** | |
| **2a** | **Ydych chi'n credu bod y Rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y bydd mangreoedd a cherbydau yn cael eu cymeradwyo?** |
| | Ateb: Dim sylw gan nad yw’r GMC yn rheoleiddio mangreoedd. |
| **2b** | **A oes unrhyw beth yn aneglur, unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys, neu unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys na ddylid ei gynnwys?** |
| | Ateb: |
| **3 - Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 202X** | |
| **3a** | **Ydych chi'n credu bod y Rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y bydd yr unigolion penodedig yn cael eu hesemptio?** |
| | Ateb: Dim sylw. |
| **3b** | **A oes unrhyw beth yn aneglur, unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys, neu unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys na ddylid ei gynnwys?** |
| | Ateb: |
| **4 - Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 202X** | |
| **4a** | **Ydych chi'n credu bod y Rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y bydd pwyllgorau trwyddedu yn gweithredu at ddibenion y cynllun trwyddedu gorfodol hwn?** |
| | Ateb: Ar gyfer ymarferwyr meddygol cofrestredig sy’n ceisio trwydded triniaeth arbennig, mae’n bwysig bod y GMC yn ymwybodol o weithgareddau unigolion |

| | |
|---|---|
| | sydd wedi'u cofrestru, a'u trwyddedu lle bo hynny'n briodol, gyda nhw. I'r perwyl hwn, credwn ei bod yn bwysig cyfeirio'n benodol (yn y Rheoliadau Trwyddedau a'r canllawiau ategol) at gyswllt rhwng pwyllgorau trwyddedu a chyrff rheoleiddio i sicrhau bod addasrwydd deiliaid trwyddedau i gynnal triniaethau arbennig yn cael ei ddilysu a bod unrhyw gyfyngiadau, amodau a osodir ar ymarfer proffesiynol unigolyn cofrestredig yn hysbys i bwyllgor trwyddedu fel rhan o'r broses o wneud cais am drwydded. Gan ystyried y baich posibl ar bwyllgorau trwyddedu, mae hyn yn ymwneud â rhannu gwybodaeth briodol lle ceir pryderon, yn hytrach na rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. |
| **4b** | **A oes unrhyw beth yn aneglur, unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys, neu unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys na ddylid ei gynnwys?** |
| | Ateb: |
| **5 - Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Cymru) 202X** | |
| **5a** | **Ydych chi'n credu bod y Rheoliadau drafft hyn yn darparu diffiniad digonol o 'wrthrych' at ddibenion tyllu rhannau o'r corff heblaw rhannau personol o fewn y cynllun trwyddedu hwn?** |
| | Ateb: Dim sylw. |
| **5b** | **A oes unrhyw beth yn aneglur, unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys, neu unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys na ddylid ei gynnwys?** |
| | Ateb: |
| **6 - Canllawiau Statudol** | |
| **6a** | **Ydych chi'n credu bod y Canllawiau Statudol drafft yn esbonio'n ddigonol sut y dylai awdurdod lleol benderfynu ynghylch addasrwydd 'person i roi triniaeth arbennig' at ddibenion trwyddedu o dan y cynllun trwyddedu gorfodol, pan fo amheuaeth wedi ei chodi ynghylch hyn?** |
| | Ateb: Yn yr un modd â Chwestiwn 4 uchod, credwn ei bod yn bwysig bod tryloywder a rhannu gwybodaeth berthnasol yn digwydd rhwng ymgeiswyr am drwyddedau, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol/pwyllgorau trwyddedu er mwyn i bawb wybod bod unigolyn cofrestredig yn ymgymryd â thriniaethau arbennig ac yn enwedig mewn achosion pan fo awdurdod lleol wedi penderfynu gwrthod neu ddirymu trwydded. |
| **6b** | **A oes unrhyw beth yn aneglur yn y Canllawiau Statudol drafft y dylid ei esbonio ymhellach?** |
| | Ateb: |
| **6c** | **A oes unrhyw beth mewn perthynas â phenderfynu ynghylch addasrwydd 'person i roi triniaeth arbennig' sydd ar goll o'r Canllawiau Statudol drafft, neu'n aneglur ynddynt?** |
| | Ateb: |
| **Cwestiynau statudol** | |

| | |
|---|---|
| **7** | **Hoffem wybod eich barn ynghylch yr effaith y gallai'r cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg.**<br><br>• **Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?** |
| | Ateb: Dim sylw. |
| **8** | **Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y cynllun trwyddedu gorfodol a gynigir ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru er mwyn sicrhau**<br><br>• **effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a**<br><br>• **dim effeithiau andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| | Ateb: Dim sylw. |
| **9** | **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw broblemau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.** |
| | Ateb: Byddai'n ddefnyddiol deall sut bydd y rheoliadau hyn yn cael eu diweddaru/eu hadolygu i adlewyrchu newidiadau mewn perthynas â rheoleiddio proffesiynau. Er enghraifft, bydd y GMC yn dod yn rheoleiddiwr ar gyfer Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol yn y DU ym mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn dilyn gosod Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol (AAPAO) gan lywodraeth y DU a'i gyflwyno yn y Senedd ar 13 Rhagfyr 2023. |